MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# FFURFLEN GAIS AELODAU CYFETHOLEDIG Y PWYLLGOR CRAFFU

## 1. Manylion Personol:

| |
|---|
| Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐<br><br>Teitl arall (nodwch) ………………………………………………………………………… |
| Enw Llawn: |
| Cyfeiriad:<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br>Cod Post……………………………………………………………………………………………… |
| E-bost: |
| Rhifau Ffôn:<br><br>Yn ystod y dydd:<br><br>Gyda'r nos:<br><br>Ffôn Symudol: |
| Nodwch y ffordd orau i gysylltu â chi: |
| Swydd: |

**2. Mynegi Dewis:**

**Ar ba Bwyllgor Craffu yr ydych yn gwneud cais i fod yn Aelod Cyfetholedig?**

☐ Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol

☐ Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad

☐ Dysgu a Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (GAALlPPhI)

☐ Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol

☐ Adfywio ac Amddiffyn y Cyhoedd (hefyd Pwyllgor Troseddu & Anhwylder)

**3. Profiad / Sgiliau**

**Rhowch fanylion am eich profiad / gyrfa / cefndir ac ati gan gyfeirio'n benodol at y Pwyllgor yr ydych yn gwneud cais amdano. (Cyfeiriwch at y disgrifiad swyddogaeth a amgaeir wrth gwblhau'r adran hon.)**

……………………………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

**Sut y tybiwch y bydd eich aelodaeth o fudd i'r Cyngor a Chymuned Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?**

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

…………………………………………………………………………………..…………

***(Parhewch ar dudalen ychwanegol os oes angen)***

**Ymddygiad:**

Oes unrhyw beth, yn eich bywyd personol neu weithiol neu yn eich gorffennol chi neu aelod agos o'ch teulu neu ffrindiau, fedrai, petai'n dod yn wybodaeth gyffredinol ddwyn anfri, arnoch chi neu ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu gwestiynu eich gonestrwydd neu'ch awdurdod i sefyll fel aelod cyfetholedig? Os oes, darparwch fanylion.

Ticiwch naill ai Oes neu Nac oes, isod

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| OES | | Nac Oes | | |
| Os oes, rhowch fanylion (ni wnaiff hyn o reidrwydd effeithio ar lwyddiant eich cais.)<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br><br>……………………………………………………………………………………………………<br><br>…………………………………………………………………………………………………… | | | | |

Arwyddwyd…………………………………………………………………………………………

Dyddiad…………………………………………………………………………………………
…

Dychwelwch y ffurflen wedi ei chwblhau a’i harwyddo i:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Adran Gwasanaethau Democrataidd,
Y Ganolfan Ddinesig,
Stryd y Castell,
Merthyr Tudful,
CF47 8AN

# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Ni fydd y wybodaeth yn yr aran hon yn ffurfio rhan o'r broses ddethol a bydd yr adran yn cael ei thynnu o'ch ffurflen cais ar ôl i ni ei derbyn. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro ac i'n cynorthwyo i ddatblygu'n polisïau a'n hymarferion. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a bydd yn destun darpariaethau deddfwriaeth cydraddoldeb a diogelu data cyfredol. Drwy ateb y cwestiynau, rydych yn sicrhau fod y broses ddethol yn deg ac yn hygyrch i bawb.

| | | |
|---|---|---|
| **Rhyw** Beth yw'ch rhyw? | ☐Gwryw | ☐Benyw |
| **Oed** I ba gategori oedran yr ydych yn perthyn? | ☐o dan 18 | |
| ☐18-19 | ☐20-29 | ☐30-39 |
| ☐50-64 | ☐65-74 | ☐75-84 |
| **Anabledd.** A ydych yn ystyried eich hun yn anabl neu fod gennych salwch hirdymor neu gyflwr sy'n eich cyfyngu?<br><br>☐Ydwyf ☐Nac Ydwyf | | |
| **Ethnigrwydd.** Beth yw'ch grŵp ethnig? Dewiswch un o adran A - E ac yna, ticiwch flwch sy'n disgrifio'ch grŵp ethnig neu'ch<br><br>cefndir. | | |
| A Gwyn<br>• Saesneg/Cymraeg/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig<br>• wyddelig<br>• Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br>Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch yma) | B Grwpiau Ethnig Cymysg<br>• Gwyn a Charibïaidd<br>Du<br>• Gwyn ac Affricanaidd Du<br>• Gwyn ac Asiaidd<br>• Arall/unrhyw gefndir<br>• ethnig cymysg arall<br>(nodwch yma) | |
| C Asiaidd<br>• Pacistan | D Du / Affricanaidd/ Caribïaidd /<br><br>Du Prydeinig | |

| | | |
|---|---|---|
| • Bangladesh<br>• Indiaidd<br>• Tseiniaidd<br>• Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch yma) | • Affricanaidd<br>• Caribïaidd<br>• Unrhyw gefndir Du//<br>Affricanaidd / Caribïaidd<br>(nodwch yma)) | |
| E Grŵp Ethnig Arall<br>• Arabaidd<br>• Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch yma) | | |

**Disgrifiad Swyddogaethau a gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Aelodau Cyfetholedig**

Fel rheol, dylai Aelodau Cyfetholedig o Bwyllgorau Craffu fedru:

*Cynrychioli buddiannau'r boblogaeth sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir neu y comisiynir gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus; a/neu,*

*Cyfrannu gwybodaeth arbenigol neu sgiliau all arwain at graffu manwl a gwrthrychol o'r materion sy'n cael eu hadolygu; a/neu,*

*Byw neu weithio yn ardal y Fwrdeistref Sirol.*

1.1 **Prif Swyddogaethau**

- Gweithredu fel llais annibynnol ar gyfer rheini sy'n byw neu'n gweithio ym mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- Dod â gwybodaeth arbenigol a/neu sgiliau i'r broses graffu a/neu elfen o her allanol drwy gynrychioli'r cyhoedd.

- Dangos diddordeb, mynychu a chyfrannu at y Pwyllgorau neu'r Grwpiau Tasgau a Gorffen y maent wedi cael eu hapwyntio iddynt.

- Sefydlu perthynas dda gydag aelodau eraill, swyddogion ac aelodau cyfetholedig.

- Ufuddhau ag adrannau perthnasol Cyfansoddiad y Cyngor parthed rheolau a gweithdrefnau ar gyfer Craffu, Trafodion Pwyllgorau ac Ymddygiad.

- Hybu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diddordeb yng ngwaith y pwyllgorau Craffu bob amser..

1.2 **Beth fydd disgwyl i chi ei wneud fel aelod cyfetholedig?**

- Mynychu cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor yr ydych yn rhan ohono..

- Mynychu cyfarfodydd ychwanegol a sesiynau casglu tystiolaeth debyg i ymweliadau safle a Grwpiau Tasg.

- Paratoi ar gyfer pob pwyllgor drwy ddarllen yr agenda ac unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn dod i ddeall y mater sy'n cael ei drafod/ Cyn y Pwyllgor, ystyriwch y cwestiynau y byddech yn hoffi eu gofyn i aelodau'r Cabinet, swyddogion a thystion allanol.

- Yn y pwyllgorau bydd gofyn i chi wrando'n ofalus, gofyn cwestiynau mewn modd nad sy'n feirniadol, parchu cyfrinachedd a chynorthwyo'r Pwyllgor i wneud argymhellion ymarferol er mwyn gwella gwasanaethau..

- Cynorthwyo i baratoi adroddiadau a ffurfio argymhellion.

- Cyfrannu i Fframwaith Rheoli perfformiad y Cyngor. Darparu elfen heriol a gweld gwasanaethau o safbwynt trigolion lleol.

- Cyfrannu at ddatblygiad y Rhaglen Waith ar gyfer Craffu.

- Mynychu unrhyw hyfforddiant a digwyddiadau datblygu a gweithdai eraill er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o flaenoriaethau allweddol a mentrau sy'n bwysig i'r Cyngor.

- Bod yn ymwybodol o'r holl faterion sy'n bwysig i'r awdurdod a chadw'r rhain mewn cof wrth graffu ar wasanaethau a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

- Cyfrannu at broses gwneud penderfyniadau sy'n agored, atebol a thryloyw yma yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

1.3 **Manyleb y Person – pa sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen ar aelodau cyfetholedig?**

- Gwir ddiddordeb i sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl leol.

- Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm.

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac adeiladu perthynas dda gydag aelodau eraill a swyddogion.

- Parchu cyfrinachedd.

- Y gallu i ddelio â materion sensitif mewn modd diplomatig.

- Parchu safbwyntiau eraill ac ystyried materion mewn modd teg nad sy'n feirniadol.

- Y gallu i ddatrys problemau ac edrych am ffyrdd dyfeisgar newydd o weithio a fydd yn sicrhau gwelliannau i wasanaethau.

- Diddordeb mwn llywodraeth leol.

- Ymwybyddiaeth o flaenoriaethau allweddol y cyngor Bwrdeistref a'r amrywiaeth o asiantaethau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl leol (gan gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol.)

- Yr angen am sensitifrwydd a disgresiwn.

- Y gofyniad i fynychu Pwyllgorau, sydd fel arfer ynn cael eu cynnal yn y prynhawniau.

1.4 **Beth yw Aelod Cyfetholedig y Pwyllgor Craffu?**

Aelod cyfetholedig yw rhywun (ar wahân i Gynghorydd) sy'n aelod o bwyllgor ac sy'n cymryd rhan lawn a gweithredol yng ngwaith y pwyllgor. Mae gan rhai aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio cyfyngedig fel y rhestrir isod.

| | **Hawliau Pleidleisio** |
|---|---|
| **Pwyllgor Craffu Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol** | |
| Apwyntio'n Gyhoeddus (x2) | |
| Y Sector Wirfoddol (x1) | |
| Cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid | |
| **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogol a Phwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd** | |
| Apwyntio'n Gyhoeddus (x2) | |
| Y Sector Wirfoddol (x1) | |
| Cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid | |
| **Pwyllgor Craffu Dysgu a Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (GAALlPPhI)** | |
| Apwyntion yn Gyhoeddus (x2) | |
| Y Sector Wirfoddol (x1) | |
| Cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Merthyr Tudful (CLlMT) | |
| Esgobaeth Statudol (x1) | |
| Rhiant Lywodraethwr Statudol (x2) | |
| Cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid | |
| **Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Apwyntio'n Gyhoeddus (x2) | |
| Y Sector Wirfoddol (x1) | |
| Cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid | |
| **Pwyllgor Craffu Adfywio, Cynllunio a Phwyllgor Craffu Cefn Gwlad** | |
| Apwyntio'n Gyhoeddus (x2) | |
| Y Sector Wirfoddol (x1) | |
| Cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid | |

Hawliau Pleidleisio - Nid oes gan Aelodau Cyfetholedig, ac eithrio Aelodau Cyfetholedig Addysgol Statudol, yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae gan Aelodau Cyfetholedig Addysgol Statudol ac Aelodau o Bwyllgor craffu GAALlPPhI hawliau pleidleisio parthed materion addysgol yn unig.

1.5 **Beth ddisgwylir gan aelod cyfetholedig?**

a) Cyn i chi ddechrau fel aelod cyfetholedig bydd angen i chi arwyddo **Cod Ymddygiad** Aelodau'r Cyngor.

b) Bydd hefyd gofyn i chi gwblhau ffurflen **Cofrestru Buddiannau**.

c) Mae’n rhaid i bob aelod cyfetholedig ufuddhau i Gyfansoddiad y Cyngor parthed amodau rheolau a gweithdrefnau ar gyfer trafodion y Pwyllgorau Craffu.

d) Yn sgil eich rôl ar y Pwyllgor Craffu, bydd disgwyl i chi:-

- Baratoi o flaen llaw, cyn y pwyllgor drwy fynychu ymweliadau safle, cwblhau hyfforddiant a datblygu perthnasol a darllen papurau agenda sydd wedi cael eu cyhoeddi.

- Cyfrannu i drafodaeth y Pwyllgor Craffu, yr Is-bwyllgor neu’r Grŵp Tasg a Gorffen ar bob mater.

- Dod ag unrhyw wybodaeth arbenigol a/neu sgiliau i’r pwyllgor.

- Dod ag elfen o her allanol i drafodaethau’r Pwyllgor er enghraifft, trwy eich rôl gynrychioladol (lle’n berthnasol) a hefyd drwy weld materion mewn modd y byddai’r cyhoedd yn eu gweld.

- Ymddiddori, mynychu a chyfrannu at waith y pwyllgor craffu neu’r grwpiau tasg a gorffen yr ydych yn gwirfoddoli iddynt.

- Casglu tystiolaeth ac ymchwil sy’n berthnasol i agenda’r pwyllgor.

- Hybu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diddordeb yng ngwaith y Pwyllgorau Craffu.

- Gofyn cwestiynau er mwyn cynorthwyo’r pwyllgor i wneud argymhellion ymarferol a fydd yn gwella gwasanaethau.

- Cynorthwyo i baratoi adroddiadau lle y mae hynny’n briodol.

- Wrth ymwneud â gweithgaredd adolygu, rhoi tystiolaeth gerbron sy’n seiliedig ar safbwyntiau/sylwadau/argymhellion sy’n codi o wybodaeth neu brofiad..

- Cynorthwyo i sefydlu ble fydd y sefydliad/y gymuned a gynrychiolir/ y grŵp defnyddwyr a gynrychiolir gan yr aelod cyfetholedig a’r pwyllgor craffu a throsolwg yn gweithio ar wahân.

- Bod yn rhan neu gynnig y person cywir i fod yn rhan o weithgaredd adolygu'r pwyllgor craffu os gofynnir am hynny.

- Adrodd yn ôl am ddatblygiad a chyfyngiadau darpariaeth rhaglenni gwaith, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau blynyddol perthnasol i’r Pwyllgor.

- Rhannu ymarfer da a dysgu sefydliadol.

- Cynorthwyo i nodi’r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer partneriaeth waith effeithiol rhwng y sefydliad neu’r grŵp rhanddeiliaid a gynrychiolir gan yr aelod cyfetholedig neu’r pwyllgor craffu perthnasol.

e) Lle mae’n briodol gwneud hynny, hysbysu’r sawl yr ydych yn eu cynrychioli.

f) Gallai fod angen i chi ddatgan diddordeb personol neu ragfarnus mewn eitem benodol ar yr agenda - byddwch yn derbyn canllawiau ynghylch beth yn union y mae hyn yn ei olygu.

g) Yn y Pwyllgor, gallwch godi materion i’w hystyried yn nhrafodaethau craffu’r dyfodol ynghylch rhaglen waith y pwyllgor.

1.6 **Sut mae bod yn aelod cyfetholedig?**

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor chwe math neu gategori o aelodau cyfetholedig (gweler 1.4 uchod.) Mae’r broses ddethol yn wahanol ar gyfer pob math o gynrychiolydd cyfetholedig.

**Aelodau Cyfetholedig sy’n cael eu hapwyntio’n Gyhoeddus** - Mae gan bob un o’r pum pwyllgor craffu dau aelod cyfetholedig sy’n cael eu hapwyntio yn sgil hysbyseb cyhoeddus.

**Cynrychiolwyr o’r Sector Wirfoddol** - mae gan bob un o’r pum pwyllgor craffu gynrychiolydd o’r Sector Wirfoddol yn unol â threfniant gyda Gweithredu gwirfoddol Merthyr Tudful (GGMT/VAMT.)

**Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr Statudol -** Mae’n yn rhan o’r Pwyllgor Craffu Dysgu a GAALlPPhI. Maent yn cael eu hethol gan Riant Lywodraethwyr yn unol â threfniadaeth statudol ac mae angen iddynt fod yn rhiant lywodraethwyr eu hunain.

**Cynrychiolwyr Esgobaeth Statudol -** Maent yn rhan o’r Pwyllgor Craffu Dysgu a GAALlPPhI. Maent yn cael eu hapwyntio yn unol â threfniadaeth statudol gan yr Esgobaeth Gatholig.

**Cymdeithas Llywodraethwyr ysgolion Merthyr Tudful** - Mae’r person a fydd yn cael ei ethol / ei enwebu yn rhan o broses a weinyddir gan Gyfarwyddiaeth yr Ysgolion. Maent yn rhan o’r Pwyllgor Craffu Dysgu a GAALlPPhI.

**Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful –** Mae gan bob un pwyllgor craffu gynrychiolydd o Fforwm yr Ieuenctid yn unol â threfniant gan y Fforwm.

1.7 **Beth all aelod cyfetholedig ei ddisgwyl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?**

a) Bydd aelodau cyfetholedig yn derbyn: :

- Cyflwyniad i GBSMT a’r modd y mae’r cyngor yn gweithio.
- Gwybodaeth am anghenion Cod Ymddygiad Aelodau.
- Canllaw Craffu’r Cyngor
- Canllaw ar ddatgan buddiannau
- Unrhyw ddogfennau allweddol sy’n berthnasol â gwaith y Pwyllgor Craffu.
- Manylion o’r pwyllgor gan gynnwys cylch gorchwyl, rhaglen waith cyfredol, dyddiadau pwyllgorau a phapurau pwyllgorau diweddar.
- Cyngor ar reolaeth pwyllgor a threfniadaeth gyfansoddiadol a’r broses o wneud penderfyniadau.
- Yn unol â gofynion cyfreithiol, bydd copïau papur o agendas ac adroddiadau ar gyfer eich pwyllgor yn cael eu hanfon atoch o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

b) Mae cefnogaeth ar gael ar gyfer Swyddogion Craffu, yn yr un modd ag y mae hefyd ar gael ar gyfer Cynghorwyr sy’n rhan o Bwyllgorau Craffu.

1.8 **Ad-dalu Costau** – Mae hawl gennych wneud cais i ad-dalu costau parcio a theithio tra’n mynychu cyfarfodydd. Darperir rhagor o wybodaeth gan y Swyddog Craffu.

1.9 **Hawliau Pleidleisio –** Mae Aelodau Cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio yn gymwys i dderbyn lwfans yn unol â’r hyn a nodir gan Banel Taliadau Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru. Darperir rhagor o wybodaeth gan y Swyddog Craffu.